# y dinesydd

Chwefror 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 269


# Y GYMRAEG AR GROESFFORDD

## Tynged yr Iaith yn nwylo'r Cynulliad

Y siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Blynyddol Menter Iaith Caerdydd, wrth i'r hen flwyddyn gau amdanom, oedd Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad. Dim ond ar ôl hynny y sylweddolodd y rhai oedd yn y cyfarfod eu bod ymysg y rhai cyntaf i glywed am rai o brif argymhellion y Cynulliad i weddnewid sefyllfa'r Gymraeg!

Cychwyn trafodaeth oedd ei fwriad y noson honno a braenaru'r tir efallai ar gyfer ceisio perswadio rhai o'i gyd aelodau ar y pwyllgor bod angen mabwysiadu cynlluniau radical a phell gyrhaeddol os am weddnewid sefyllfa'r Gymraeg. Erbyn y gwanwyn a dechrau'r haf bydd llawer mwy o gig ar yr esgyrn a chawn weld pa mor radical yn wir fydd yr argymhellion ac a fydd pawb yn y Cynulliad o'u plaid.

Mae rhai o syniadau'r Cadeirydd yn fwy hysbys erbyn hyn, fel ei alwad am i bob plentyn tair oed yng Nghymru gael addysg feithrin yn y Gymraeg; ei bwyslais ar glustnodi arian sylweddol yn y "miliynau" er mwyn mynd â'r maen i'r wal, a'i argymhelliad bod angen polisiau i Gymru gyfan.

Un o'r ardaloedd traddodiadol di-Gymraeg ydy Caerdydd a'r Fro ond bu cynnydd a llwyddiant yma yn y blynyddoedd diweddar.

Efallai ein bod ni hefyd yn gwybod yn well na neb am yr allfudo o'r cadarnleoedd gan mai Caerdydd yn bennaf sy'n denu. Y gwir ydy fod degau o filoedd yn y gorllewin a'r gogledd â chwlwm teuluol â'r brifddinas erbyn hyn. Arwydd efallai bod Caerdydd yn dod i'w hoed fel prifddinas.

Er mai'r mân gecru sydd wedi cyrraedd y penawdau yn rhy aml, un o'r arwyddion mwyaf gobeithiol o Fae Caerdydd yw bod rhai fel David Davies, Glyn Davies a Mike German yn mynd ati i ddysgu Cymraeg ac yn ei defnyddio ar y cyfryngau mewn cyfweliadau. Os mai'r ysbryd yma fydd yn ennill y dydd yn y pwyllgor, yna gallwn ddisgwyl cynigion allai wneud gwahaniaeth go iawn wrth geisio hybu ac adfer y Gymraeg.

Does dim dwywaith bod yr arolwg a'r ymgynghori trwyadl wedi codi gobeithion. Mae'r pwyllgor o dan gryn bwysau i wneud argymhellion swmpus allai wneud gwahaniaeth i sefyllfa'r Gymraeg. Mae hygrededd y Cynulliad ei hun ynghlwm yn hyn hefyd. Dyma un o'r prif feysydd wedi'r cwbl lle dylai'r Cynulliad fedru gwneud gwahaniaeth sylweddol ym mywyd y genedl. Cawn weld felly ym misoedd hirfelyn tesog yr haf beth fydd tynged yr iaith a ninnau'n dal ym mhlygion cyntaf yr unfed ganrif ar hugain a gobeithio bod Rhodri Glyn yn olyniaeth Rhodri Mawr.

## 'STEDDFOD YR URDD 2002 AR EI FFORDD!

Go brin fod unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn anymwybodol o'r ffaith fod Eisteddfod yr Urdd ar feysydd Castell Caerdydd rhwng y 3ydd a'r 8fed o Fehefin eleni - wedi'r cyfan rydych chi i gyd wedi bod wrthi'n ddiwyd ers dwy flynedd a mwy yn codi arian ar ei chyfer!

Bellach, mae'n bryd i chi i ddechrau cynllunio eich dyddiaduron ar gyfer yr wythnos. Dyma grynodeb o'r gweithgareddau nos i edrych ymlaen atyn nhw.

- Nos Lun, 3 Mehefin i Nos Fercher, 5 Mehefin, sioe gerdd gynradd, Syniad Sam, yn Neuadd Dewi Sant. Mae'r tocynnau eisoes ar werth o Neuadd Dewi Sant. (029 2087 8444)
- Nos Lun a Nos Fawrth, 3 a 4 Mehefin, sioe gerdd uwchradd yn Theatre Stanwell, Penarth.
- Nos Fercher, 5 Mehefin, ym Mhafiliwn yr Eisteddfod - cyngerdd band jazz a chorau ieuenctid y ddwy sir.
- Nos Iau, 6 Mehefin, ym Mhafiliwn yr Eisteddfod - noson y sioeau gyda Fflur Wyn, Sian Cothi, Steffan Rhys Williams a llawer mwy!
- Nos Sul, 9 Mehefin, yng Nghapel Tabernacl - Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy gyda Richard Elfyn Jones ar yr organ.

Am ragor o wybodaeth am yr uchod, a'r gystadleuaeth ddrama, a fydd yn digwydd dros bum noson yn ystod yr wythnos, neu i archebu tocynnau, cysylltwch â swyddfa'r Eisteddfod drwy ffonio 029 2080 3360 neu e-bostio caerdydd2002@urdd.org. Bydd mwy o fanylion yn eich rhifyn nesaf o'r *Dinesydd*.

CAERDYDD a'r Fro

**Urdd 2002**

**3 - 8 MEHEFIN 2002**

### DWY LAW YN ERFYN...

Cysylltwch â ni os ydych yn gallu cynnig llety i blant fydd yn ymweld â'r Eisteddfod am un neu fwy o nosweithiau yn ystod y dyddiadau uchod.

*Neu* Trwy ymuno â'n tîm Stiwardio fydd yn gyfrifol am gynorthwyo a chadw trefn.

Rydym yn dibynnu ar ewyllys da pobl leol i wneud Eisteddfod Caerdydd a'r Fro yn llwyddiannus dros ben. Erfyniwn arnoch am eich cefnogaeth i'r apêl hon.

Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Nicola Gruffydd, Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy, Treganna, Caerdydd, CF11 9NT
Ffôn: 029 2080 3360
Ffacs: 029 2080 3351
E-bost: Nicola@urdd.org

# Y Dinesydd

**Chwefror, Rhif 269.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Cen Williams

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Sian Parry Jones

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth 2002 erbyn 19 Chwefror at:**
Siân Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07944-212083; e-bost: sepj@lineone.net)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

**Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.**
**Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:**
**Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; e-bost: MennaGwyn@aol.com)**

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**


Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 29** **Chwefror 2002**



**Ar Draws**

1. Mechnio dros Gwilym ar naw tu rywsut! (8)
4. A yw twmpath yn lle da i gadw arian? (4)
8. Addunedu yng nghanol baddon (3)
9. 'Bywyd y ____, tyrd i'n plith
A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth' (J Hughes) (5)
10. Mae enwogion yn rhan o'r amserau (3)
11. Amwys fel côt dafad (7)
12. Pedoli heol a'i sathru (5)
13. 'Canfyddwn rhwng y brigau ddarn o'r Nef,
Lle cân y saint ___ ___ a ffydd' (Gwenallt) (7,4)
17. Bydded offeryn llyfni yn offeryn miniog (5)
18. 'Yn ____ yn y gwynt a'r glaw
I bibau pêr rhyw gerddor cudd.' (I.D.Hooson) (7)
20. Dechrau ofni newyddion drwg yn unig (3)
21. Salmydd yn colli ei ben, eto'n troi i frwydro (5)
22. Pwff o wynt yn gwrthdroi awydd (3)
23. Mygu tra'n glud ar yn ail (4)
24. 'Pererin wyf mewn ____ ___,
Yn crwydro yma a thraw' (W. Williams) (5, 3)

**I Lawr**

1. Pwyso a gwgu oddeutu'r Aelod Seneddol (6)
2. Sawr a fu ar glo efallai (5)
3. Tri go arw yn gwneud cyflaith (5)
5. Gwlad lle mae is hafaidd yn dod cyn diwedd Chwefror a'r rhew (7)
6. Modur annwyl Simon gofalus (6)
7. Arwyddocâd y pwsi gwyrdd rhyfedd! (10)
9. 'Ym ___ ___ yr annwyl Oen
Heb friw na phoen, 'rwy'n llechu' (W. Williams) (4.6)
14. Mae dogn Dei druan yn hynod (7)
15. Gorchest torri sbectol heb ddechrau cochi (6)
16. 'Pan rydd yr ___ oer
Ei gaenen ar yr ardd' (Ceiriog) (6)
18. Dau yn ddigalon, a Glyn wedi colli ei ben rhywle yn Iwerddon (5)
19. Oes gan Des ych eisiau diod?

**Atebion Croesair 28**

**Ar draws:** Ar Draws: 1. Gaeaf; 4. Crafanc; 7. Amgen; 8. Cynnwrf; 10. A phenlinio; 11. Isop; 12. Salm; 17. Pysgodwyr; 19. Ynfytyn; 20. Dianc; 21. Uchelwydd; 22. Galar.

**I Lawr:** 1. Gwaedu i'n prynu; 2. Ergydio; 3. Fintai; 4. Cecren; 5. Achwyn; 6. Cyfion mewn côr; 9. Neli; 13. Anifail; 14. Pont; 15. Gwynedd; 16. Aredig; 18. Safle.

Derbyniwyd 12 o gynigion, 8 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Huana Simpson, Is-y-Coed Fach, Llansanwyr. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan: G Farthing, Gwenda Hopkins, H O Hughes, Eira Jones, E Haydn Jones, Margaret Jones a Dilys Pritchard-Jones.

**Cystadleuaeth Chwefror 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Chwefror 2002.

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 14 Chwefror**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Sgwrs am Caneuon Ffydd gan Rob Nicholls, yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.
**Gwener, 15 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Yn y Teulu: Hanner Mileniwm o Drosglwyddo Barddoniaeth Rhys Goch Eryri.' Darlith gan Dylan Foster Evans, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, 7.00 p.m.
**Mawrth, 19 Chwefror**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd): 'Islwyn a Pantycelyn' gan Dr Glyn Tegai Hughes, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.
**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Rhaglen nodwedd dan ofal Ann ac Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 20 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cwis dan ofal Mr a Mrs Idwal Hughes, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 20 Chwefror**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: Anerchiad gan Dr Dafydd Huws, 7pm
**Mawrth, 26 Chwefror**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Ystafell 101' dan arweiniad Hywel Jones a Marc Jon Williams, am 7.30 p.m.
**Gwener, 1 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Darlith Gŵyl Ddewi gan yr Athro Sioned Davies, yn festri Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.15 p.m.
**Gwener, 1 Mawrth**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Mount Sorrel am 7.30 erbyn 8.00 p.m. Prif westai: Parch. Ddr R. Alun Evans.
**Gwener, 1 Mawrth**
Eglwys Dewi Sant: Offeren ar Gân am 7.30 p.m. Llywydd a phregethwr: Y Parchedicaf Ddr Rowan D. Williams, Archesgob Cymru. Cenir 'Offeren Dewi Sant' gan Geraint Lewis. Bydd bwffe a diodydd yn dilyn y gwasanaeth.
**Sadwrn, 2 Mawrth**
Eglwys Dewi Sant: Cyngerdd er budd Samariaid Caerdydd am 7.30 p.m. Côr Meibion Parc yr Arfau Caerdydd, Band a Drymiau Heddlu De Cymru.
**Sul, 3 Mawrth**
Eglwys Dewi Sant: Hwyrol Weddi ar Gân am 6.00 p.m. Pregethwr: Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol.
**Llun, 4 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cinio Gŵyl Ddewi, ym Methany, am 7.30 p.m.
**Llun, 4 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Mawrth, 5 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Swper Gŵyl Ddewi, am 7.30 p.m. Prif westai: Bryn Evans.
**Mercher, 6 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 1.00 p.m. Gwr gwadd: Parch. Ddr R. Alun Evans.
**Mercher, 6 Mawrth**
Merched y Wawr, Bro Radur: Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Delyth Pollard yn Neuadd y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Gwener, 8 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Gwr gwadd: Parch. Evan Morgan.
**Llun, 11 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, dan ofal Falmai Griffiths, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 6.00 p.m.
**Mawrth, 12 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Doniau'r Diaconiaid' dan ofal Delun Callow, am 7.30 p.m.
**Iau, 14 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs gan Rhiannon Gregory. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.
**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Mesur y Bardd Bach: Golygu Cerddi Gwenallt.' Darlith gan Dr Christine James, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Mawrth, 19 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd): Darlith gan yr Athro Jane Aaron, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.
**Mawrth, 19 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Sgwrs gan y Parch. Evan Morgan, 7.30 pm

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Cydymdeimlir

• ag Emyr ac Eleri Kirkman ar farwolaeth eu tad Dafydd Kirkman, Aberystwyth yn ysbyty Treforus ar 3 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Seion, Aberystwyth ac yna yn Amlosgfa'r dre.

• â Nancy Williams y Mynydd Bychan a'r teulu ar golli ei gŵr Ambrose Williams ar 12 Rhagfyr. Bu'n flaenor yn Salem, Porthmadog cyn symud i fyw i Gaerdydd a dod yn flaenor yng Nghapel Ebeneser. Ymgyrchodd dros y blynyddoedd i ddatblygu cynllunio technoleg yng Nghymru.

• â Mary Wiliam, Llandaf a'i theulu ar farwolaeth ei thad Thomas Osborne Middleton, Sirhywi, Tredegar ar 14 Tachwedd. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Ebeneser, Dukestown, Tredegar.

• â Dr Wyn James yr Eglwys Newydd a'r teulu yn Nhroed y Rhiw, Merthyr Tudful ar golli ei dad Trefor Thomas James ar 20 Rhagfyr yn 82 oed. Bu'r angladd yng Ngharmel, Capel y Bedyddwyr yn Nhroed y Rhiw ac wedi hynny ym mynwent gyhoeddus Aberfan.

• â Peggy Davies a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Gerallt Wyn Davies yn Nhŷ Bethel, Dinas Powys ar 29 Rhagfyr. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd yn Eglwys Rydd Highfields yn Heol Monthemer, Cathays.

• â Gill Elfyn a'i theulu ar farwolaeth ei mam Mary Gwen Owens ar Ddydd Calan. Bu'r angladd yng Nghapel y Bedyddwyr Watergate yn Aberhonddu ac yn dilyn ym mynwent Aberhonddu.

## Llongyfarchiadau

• i Lyn Owen Rhiwbina ar ei phenodiad fel Swyddog Cyswllt yn y Cynulliad ar gyfer Asiant Amgylchfyd Cymru.

• i'r Bargyfreithiwr Winston Roddick, Cyncoed ar gael ei ethol yn Is Lywydd Llys Prifysgol Aberystwyth i olynu'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd.

• i Iwan ac Iona Pryce, Treganna ar enedigaeth eu cyntaf anedig, Lleu Arthur yn Ysbyty Llandochau ar yr 11 Hydref. Ŵyr i Rees a Mary Pryce Rhiwbeina ac Arthur ac Eirian Hughes Bow Street a nai i Guto Pryce.

• i Michael a Michele Jenkins, Cyncoed ar enedigaeth eu mab Rhys, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 23 Tachwedd. Brawd bach i Beth ac ŵyr i June Evans a John a Pat Jenkins Rhiwbeina.

• i Ceris a Ceri Clutterbuck – Jones ar enedigaeth eu mab Osian ar y 26 Tachwedd. Brawd bach i Rowan ac ŵyr i Paul a Chris Clutterbuck a Glanville ac Edna Jones.

• i Siôn Jobbins a Siwan Gwyndaf ar enedigaeth eu merch Elliw Lois Gwyndaf ar 19 Rhagfyr.

• i Guto Harri a Shireen ar enedigaeth efeilliaid Benjamin Aled a Callum Dewi, ar 27 Rhagfyr.

• i Rhys Boore a Rachel Williams ar enedigaeth eu mab Tomos Llywelyn, ŵyr cyntaf i Roger ac Anne Boore, Yr Eglwys Newydd a David a Janice Williams, Cyncoed.

• i Manon Humphries, gynt o Landaf ar ei phriodas â Paul Frost o Fryste yn Eglwys y Crwys ar Ddydd Sadwrn, 8 Rhagfyr. Mae Manon yn gyfrifydd a Paul yn reolwr banc ac meant wedi ymgartrefu ym Mryste.

### Diwrnod y Llyfr

Unwaith eto eleni mae Cyngor Llyfrau Cymru yn annog ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau bro'r *Dinesydd* i ymuno yn nathliadau Diwrnod y Llyfr.

Gofynnwyd i'r *Dinesydd* gynnwys cystadleuaeth y croesair yn y rhifyn hwn. Arwahan i gynnig gwobr i'r enillydd, mae'r Cyngor Llyfrau yn cynnig gwobr o £150 i'r papur bro fydd yn ysgogi yr ymateb gorau.

Er mwyn hwyluso pethau, mae'r *Dinesydd* wedi penderfynu cynnwys y gystadleuaeth fel atodiad i gyd fynd â'r rhifyn hwn. Ewch ati i ddatrys y pôs ac i gefnogi'r *Dinesydd*!

### Cyhoeddi llyfr

Mae Gwasg Carreg Gwalch newydd gyhoeddi cyfrol gyntaf o straeon byrion o'r enw 'Sgrech Rhyfel' gan Martin Huws, Ffynnon Daf ond gynt o Gaerdydd. Bu Martin yn ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac yna yn Ysgol Uwchradd Cathays. Cafodd ei ysgogi i sgrifennu'r straeon ar ôl ail ddarllen cyfweliad â milwr a fu'n ymladd yn y Malvinas. Mae'r awdur eisioes wedi cyhoeddi llyfryn dwyieithog am hanes Caerdydd gyda lluniau gan Nick Jenkins.

### Lyn Evans O.B.E.

Yn 87 oed, bu farw Lyn Evans O.B.E. cyn olygydd Cymreig y News Chronicle a Phrif Swyddog Cymru yr Awdurdod Teledu Annibynnol. Bu'r angladd yng Nghartre Gorffwys James Summers a'i Fab, Cwrt y Rhath ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen. Cydymdeimlir â'i weddw Edna Evans a'r teulu oll yn eu colled.

### Côr Ysgol Baden Powell ar y blaen

Roedd gan Goronwy Jones, Brifathro Ysgol Baden Powell le i ymfalchio yng nghamp ei ddisgyblion yn ennill cystadleuaeth y côr gorau am godi arian tuag at ymchwil rhag canser yng nghanolfan siopa y brifddinas cyn y Nadolig. Llwyddwyd i godi dros fil o bunnoedd. Bu'r côr yn canu o flaen archfarchnad Tesco's ym Mhengam Green hefyd i godi arian i Apêl Arch Noa. Felly, da iawn Ysgol Baden Powell.

### Aelodau newydd ar Gyngor Darlledu Cymru

Penodwyd Eirlys Pritchard Jones, Llanbedr y Fro ac Alan Meredith yn aelodau ar Gyngor Darlledu Cymru i gymryd lle yr Athro Eric Sunderland a'r Athro Syr Adrian Webb. Bydd eu haelodaeth ar y Cyngor yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2004.

### Codi Arian yn yr Eglwys Newydd

Bu Côr Plant Caerdydd a Chôr Hamdden Caerdydd yn diddanu Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn ddiweddar. Cafwyd gwledd i'r glust ac fe wnaed casgliad ar gyfer elusennau lleol yn y ddwy gyngerdd. Codwyd £150 yr un ar gyfer Bobath Cymru ac Ysbyty Felindre.

### Cyflyma Huw, Arafa Don?

*With English subtitles.* (T) *39978843*
**8.00 Dechrau Canu Dechrau Canmol**
How Slowly Davies meets the Rev
Dr IDE Thomas. *36705805*
**8.30 Portreadau** (T) *36717640*

Toriad o dudalen deledu'r *Western Mail*, Dydd Sul, 27 Ionawr.

### Annwyl Olygydd,

Gofynnwyd i mi anfon gair ar ran Cyngor Eglwysi Cymraeg y brifddinas i dynnu sylw'ch darllenwyr at ein rhaglen o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Amlach na pheidio, cyhoeddir y cyfarfodydd yn yr eglwysi ar y Sul blaenorol ac mae'n ddigon hawdd i rai golli'r oedfa benodol honno. Bydd y cyfarfod nesaf o dan arweiniad Mr Robert Nicholls yn festri Ebeneser yn trafod (a chanu mae'n siŵr) y llyfr emynau newydd *Caneuon Ffydd*. Cynhelir y cyfarfod ar 14 Chwefror gan gychwyn am 7.30pm. Bydd cyfarfod mis Mawrth yn dilyn y patrwm arferol pan byddwn yn ymgasglu yn Eglwys Dewi Sant ar Ddydd Gwener y Groglith, sef 29 Mawrth am 2.00pm. Y pregethwr gwadd fydd Esgob Llandaf sef y Gwir Barchedig Barry Morgan. Croeso i bawb.

**Beryl Hall**

### Annwyl Dinesydd

Derbyniais gylchgrawn o'r enw WAG yn ddiweddar. Agorais yn eiddgar i ddarllen am hynt a helynt ein Llywodraeth Genedlaethol. Meddyliwch y siom a gefais wrth ddarganfod mai olrhain digwyddiadau yn y byd animeiddio yng Nghymru oedd y cylchgrawn, gyda WAG yn golygu *Welsh Animation Group*. Wedi meddwl, gydag erthyglau fel 'War of the Worlds', 'Stalin and his Rodents' a 'Worlds Apart' tybed oes yna gysylltiad?

Yn gywir,

**Sali Mali** (cafwyd enw a chyfeiriad)

## COFIO DAU GERDDOR



### Cofio Ivor Novello yng Nghaerdydd.

Mae Hilary David o Gyncoed wrthi'n ddyfal ers tro yn trefnu cronfa er mwyn cael cerflun efydd o Ivor Novello ar safle ym Mae Caerdydd ger Canolfan y Mileniwm a chaiff ei godi maes o law. Mae eisoes wedi casglu £30,000 ac mae angen £10,000 arall. Eisoes, mae'r cerflunydd enwog Falco Romanelli wedi cytuno i gyflawni'r gwaith a bwriedir cael cerflun o Ivor Novello yn eistedd ac yn dal sgôr cerddorol. Apelir am gyfraniadau er mwyn gwireddu breuddwyd Hilary David o weld cofeb deilwng i un o'r enwog Caerdydd. Cyfeiriwch unrhyw gyfraniad i 'Gronfa Cerflun Ivor Novello' a'i anfon at Hilary David, 94 Rhyd-y-pennau Road, Cyncoed, Caerdydd CF23 6PW

### Joseph Parry 2003

Bydd 2003 yn ganmlwyddiant marw'r cerddor Dr Joseph Parry (1841-1903). Fel rhan o raglen goffa'r flwyddyn honno, bwriadaf fynd a'm darlith/cyflwyniad cerddorol ar Joseph Parry ar daith.

Os yw'ch clwb neu gymdeithas am gyfrannu at goffau'r Pencerdd, cysylltwch mor fuan ag sy'n bosibl, er mwyn sicrhau dyddiad cyfleus.

Yn gywir,

**DULAIS RHYS (Dr.)**

Am fwy o wybodaeth: 9 Ffordd Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3DW neu (01267) 232338 (ffon a ffacs) neu E-bost: lvr@globalnet.co.uk

### *Plwm job* i Mici *isn't it*

Llongyfarchiadau i Mici Plwm ar ei benodiad yn gyfarwyddwr newydd Theatr Ardudwy yn Harlech. Mae'n olynu Gwyn L. Williams sydd wedi ei benodi yn Brif Weithredwr Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## MINNY STREET, CAERDYDD

Bu disgwyl mawr am ein hail Eisteddfod Fawreddog yn dilyn llwyddiant ysgubol y gyntaf 'nôl yn Chwefror 1998! Ar 4 Rhagfyr, dyma'r noson fawr yn cyrraedd! Diolch i Aled a Menna Gwyn am eu gwaith paratoi, ac i Ifan Roberts (gyda chefnogaeth ei briod, Margaret) am feirniadu.

Gyda'r parhad mewn datblygu agweddau newydd i'n hoedfaon cafwyd oedfa deuluol fore Sul, 2 Rhagfyr o dan arweiniad "Teulu'r Goodfellows!" Cyflwynwyd anerchiad gafaelgar gan Howard, gyda, Elunis, ynghyd â'u merched, Rhian a Meryl, yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Cawsom hefyd y fraint o fedyddio Iestyn Siôn Fenn, mab bach Rhian a Neil ac ŵyr Howard ac Elunis.

Daeth tymor yr Adfent â'i fwrlwm arferol o oedfaon arbennig. Aeth yr Ysgol Sul â ni i garej yng nghefn Gwesty'r Angel am ei chyflwyniad apelgar a chyfoes o Stori'r Geni. Bu plant hyn a phobl ifanc yr Ysgol Sul yn ein harwain mewn Gwasanaeth Carolau.

Yng nghanol rhialtwch yr holl baratoi bendith oedd cael mynychu'r gwasanaeth Naw Llith a Charol a drefnwyd gan Marian Lake a Meudwen Davies. Yna fore Nadolig, cawsom wasanaeth ar y cyd gydag Eglwys y Crwys.

Hawdd iawn anghofio am y rhai llai ffodus na ni ar adeg y Nadolig. Yn dilyn syniad a ddeilliodd yn un o oedfaon bore'r Ysgol Sul, roedd llawer o'r plant a'r aelodau hyn wedi cyflwyno rhoddion i'w dosbarthu fel anrhegion i'r digartref dros y Nadolig. A chyda rhai llai ffodus mewn golwg bu i nifer o'n plith gerdded a seiclo o Eglwys Llandaf i Fethlehem (Bethlehem, Gwaelod y Garth!) ddydd Iau wedi'r Nadolig er mwyn casglu nawdd tuag at Apêl Arch Noa.

Gyda'r Flwyddyn Newydd, ar brynhawn Sul cyntaf 2002, aeth llond bws o aelodau a chyfeillion i oedfa Blygain yng nghapel hynafol Bethesda'r Fro.

Llongyfarchiadau i un o bobl ifanc yr Eglwys, Emyr Evans ar ei briodas â Claire (Wine) yn Dulwich ar 5 Ionawr - pob dymuniad da i'r pâr ifanc. Croeso cynnes i Mrs Sioned Nash (Rhiwbina) a ddaeth yn aelod fore Sul, 13 Ionawr.

## BETHEL, RHIWBINA

Bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn un prysur iawn a chafwyd cynulleidfa dda ym mhob un o'r oedfaon. Bu aelodau iau yr Ysgol Sul yn cymeryd rhan yng ngwasanaeth y plant. Diolch i'r rhieni am drefnu'r bwyd a'r anrhegion. Y Sul canlynol cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y rhai sydd ychydig yn hyn. Dr. Richard Elfyn Jones oedd wrth yr organ; y ddwy delynores oedd Angharad Davies a Nerys Jones a chafwyd unawd ar y trwmped gan Daniel Gwyn Hughes. Cafwyd eitemau unigol gan ddeg o bobol ifanc yr eglwys a chan Mrs. Elspeth Hughes a Mr. Dennis Francis. Eitem boblogaidd oedd y dehongliad o "Tri y'm Ni" gan Grŵp y Dynion sef Alun Guy, Gwilym Roberts a Trystan Francis. Diolch i Mrs. Gwenda Francis a Mrs. Mair Jenkins am drefnu'r gwasanaeth. Trefnwyd oedfa Noswyl Nadolig gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sul ola'r flwyddyn cawsom y cyfle i groesawu aelodau Salem, ein chwaer eglwys i oedfa yng ngofal ein Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan.

Cydymdeimlir yn fawr â Mair ac Arthur Jones, Sain Niclas, yn eu profedigaeth. Bu farw chwaer Arthur yn Nhalysarn ger Caernarfon.

Ail ddechreuodd y Dosbarth Beiblaidd dan arweiniad y Gweinidog. Thema'r tymor hwn yw "Teithiau". Croeso i unrhyw un ymuno â ni ar foreau Mawrth am 10.30.

## EGLWYS Y CRWYS

Bu'r prysurdeb arferol yn Eglwys y Crwys dros gyfnod y Nadolig ac ymlaen dros drothwy'r flwyddyn newydd. Diwedd Tachwedd daeth Rhiannon Alun Evans i annerch Cylch y Chwiorydd ar y testun Troeon Bywyd tra i Garwyn Davies ddewis ambell emyn fel thema ei sgwrs gyda'r Froderfa. Ganol Rhagfyr daeth y ddwy Gymdeithas ynghyd mewn cyfarfod Nadolig a drefnwyd gan Mrs Margaret Lewis.

Nos Lun, 2 Rhagfyr cafodd y Grŵp Merched ei swper Nadolig blynyddol. Y Cadeirydd eleni yw Mrs Babs Evans a hi fu'n gyfrifol am lywio'r gweithgareddau.

Nos Wener, 14 Rhagfyr daeth un o wynebau mwyaf cyfarwydd y teledu, Huw Edwards i annerch y Gymdeithas Ddiwylliadol. Cawsom anerchiad grymus ganddo ar le'r cyfryngau yn yr oes ddigidol. Fe'i cyflwynwyd gan y Cadeirydd Mr Arwel Owen a diolchwyd iddo gan y Parch Cynwil Williams.

Fore Sul cyn y Nadolig cafwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid cynnar. Roedd plethwaith y gwasanaeth yn glod i Arolygydd yr Ysgol Sul, Mrs Siân Griffiths a'i chyd athrawon ymroddgar. Diolchwyd iddynt i gyd gan y Gweinidog y Parch Glyn Tudwal Jones.

Nos Sul cyn y Nadolig roedd y Gymdeithas yn gyfrifol am oedfa'r hwyr. Trefnwyd y gwasanaeth o ddarlleniadau, gweddïau a charolau gan Arwel a Non Owen. Huw Lloyd oedd arweinydd y gerddorfa, gyda'r Dr Dewi Lewis wrth yr organ. Traddodwyd y myfyrdod gan y Gweinidog ar y testun 'Arwyddocâd Symbolaidd y Goeden Nadolig'.

Fore Nadolig cafodd aelodau Eglwys y Crwys groeso cynnes iawn gan aelodau Eglwys Minny Street. Rhannwyd yr oedfa rhwng y ddwy Eglwys. Cymerwyd y rhannau arweinyddol gan y Parch Eifion Powell, a phregethwyd gan y Parch Glyn Tudwal Jones. Alun Guy oedd wrth yr organ ac fe'i cynorthwywyd yn y mawl gan gerddorfa y ddwy Eglwys.

### Gair o ddiolch

Derbyniodd yr Eglwys rodd werthfawr o ddeugain copi o Caneuon Ffydd gan Mr Doug Griffiths er cof am Mrs Maisie Griffiths a fu farw y llynedd.

Bellach mae'r Eglwys ar y rhyngrwyd. Cysylltwch â www.eglwys-y-crwys.fsnet.co,uk. - a galwch draw. Diolch yn fawr i Iwan Evans am hyrwyddo'r datblygiad hwn.

Brynhawn Mercher, 9 Ionawr daeth Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa ynghyd i wrando ar y Parch R. Alun Evans yn olrhain hanes a datblygiad y canu plygain. Cyflwynwyd y siaradwr gwadd gan Mrs Kathleen Wood.

Daeth tyrfa niferus i'r Cyfarfod Gweddi a gynhaliwyd ddechrau'r flwyddyn. Cafwyd cyfres o ddarlleniadau, myfyrdodau, gweddïau a cherddoriaeth dan drefniant Ros Williams a'r teulu. Yr arweinydd oedd Arwel Owen gyda Non Owen wrth y piano.

### Diolch am Roddion

Diolch o galon i'r canlynol am anfon rhoddion ar gyfer *Y Dinesydd* yn ddiweddar: Eglwys y Tabernacl, Yr Ais; Eglwys Minny Street; Eglwys Salem, Treganna; Eglwys y Crwys; Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch; a nifer o unigolion. Fe'u gwerthfawrogir yn fawr.

# Mwy o newyddion o'r Eglwysi

## EGLWYS DEWI SANT

Cynhaliwyd angladd Mr W.T. Jenkins, gynt o Landaf, ar Ragfyr 17. Brodor o ardal y Preseli oedd W.T. a symudodd i Gaerdydd yn y 60au. Bu'n aelod yn Newi Sant am dros 65 mlynedd, tan iddo symud i Fryste i fod yn nes at ei ferch. Cofiwn amdano fel gŵr bonheddig a charedig dros ben.

Dathlwyd y Nadolig gan blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul wrth berfformio eu fersiwn nhw o *Star Trek* a sgriptiwyd gan Wyn Mears. Cynhaliwyd gwasanaeth o Lithoedd a Charolau o dan arweiniad David Leggett a'r côr. Daeth cynulleidfa niferus i ymuno yn y mawl ac i fwynhau'r lluniaeth tymhorol yn y neuadd.

Aeth Clwb Cerdded Cledan i ardal Abaty Tyndyrn ddydd Sadwrn ar ôl y Nadolig. Roedd hi'n oer iawn ond yn braf a chafodd pawb amser wrth eu bodd.

Pob dymuniad da i Andrea ac Ian Miller wrth iddynt ymgartrefu yn Ninbych. Ian yw Prif Weithredwr newydd Sir Ddinbych, a bydd Andrea yn parhau fel Uwch Swyddog Addysg a Hyfforddiant Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn yn gweld eu heisiau yn Newi Sant. Diolch i Sally a Graham Davies am gynnal parti ffarwel iddynt yn eu cartref.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG

Cydymdeimlwn â thri o aelodau'r eglwys a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Collodd y Parch. Ddr Noel Gibbard ei frawd, y Parch. Hedley Gibbard, Pwllheli. Hefyd, bu farw tad Lynne Davies, Llanisien, a thad Dr E. Wyn James, Yr Eglwys Newydd.

Llongyfarchiadau i Dewi George a Leri Aaron ar eu dyweddïad, a phob dymuniad da i Leri yn ei swydd newydd yn adran cyhoeddiadau'r Amgueddfa Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Treharne, sef rhieni Mrs Elisabeth Williams, Llanisien, ar ddathlu eu priodas ddeimwnt yn ystod mis Ionawr.

Cafodd Huw Pritchard ei gyfweld gan Elinor Jones ar y rhaglen 'Croesffordd' ar Radio Cymru. Soniodd, yn bennaf, am ei gefndir yng Nghaerdydd ac am ei dröedigaeth Gristnogol a'i harwyddocâd.

Nos Wener, 1 Mawrth, cynhelir noson Gŵyl Ddewi yn y capel. Estynnir croeso i bawb i ymuno â ni yn y dathlu Cristnogol â blas Cymreig.

---

## HYFFORDDIANT CYFIEITHU AR Y PRYD

Mae Menter Iaith, ar waith yn ardal Rhondda Cynon Taf yn falch i gyhoeddi ei bod yn cynnig 'Cwrs Cyfieithu ar y Pryd' Bydd y cwrs yn dechrau ar Nos Lun, 25 Chwefror, 2002, rhwng 7.0 a 9.0 y.h., am 5 wythnos, ym Mhrifysgol Morgannwg, ger Pontypridd.

Dywed Steffan Webb, Prif Weithredwr Menter Iaith "Rydym wedi bod yn rhedeg y cyrsiau yma am saith mlynedd. Mae galw mawr am y math yma o hyfforddiant sydd yn rhoi'r sgiliau i unigolion fedru cyfieithu ar y pryd. Mae mwy a mwy o gyrff cyhoeddus gan gynnwys y Cynulliad, Cynghorau Lleol, cyrff Gwirfoddol, Mudiadau Cymunedol ac Ysgolion yn galw am wasanaeth cyfieithu ar gyfer eu cyfarfodydd, pwyllgorau a gweithgareddau cyhoeddus"

Elin Tudur, Cwmni Cyfieithu Seren, a sefydlydd y cwrs, fydd yn arwain y cwrs a fydd yn rhoi lle i ryw bymtheg o fyfyrwyr. Mae Elin wedi gwneud gwaith cyfieithu ar y pryd i ni ers blynyddoedd ac mae'n darparu gwasanaeth o'r safon uchaf. Rydym yn defnyddio'r cyfleusterau mwyaf cyfoes labordai iaith Prifysgol Morgannwg. Mae sawl un o'm cyn fyfyrwyr yn gweithio yn y Cynulliad erbyn hyn. Mae canmoliaeth wedi'i dderbyn yn gyson gan bobl ar y cyrsiau a chan gwsmeriaid eraill sydd yn dibynnu ar eu cyfieithwyr sydd wedi derbyn yr hyfforddiant o'r fath yma.

Mae'r cwrs yn agored i ddechreuwyr a dylid ei ystyried yn gyflwyniad i gyfieithu ar y pryd a fydd yn rhoi digon o hyder i bobl fynd ymlaen i gynnig gwasanaeth a dysgu mwy wrth brofi'r gwaith yn ymarferol. Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly, "y cyntaf i'r felin gaiff falu" Pris y cwrs fydd £70.00 a £35.00 i gonsesiynau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Steffan Webb neu Gwynallt Bowen ym Menter Iaith ( 01685 877183
e-bost: gwynalltbowen@menteriaith.org

---

## ELUSEN Y STADIWM YN CYHOEDDI CYNLLUN GRANTIAU 'UNIGRYW'

THE MILLENNIUM STADIUM
CHARITABLE TRUST
YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL
STADIWM Y MILENIWM

Mae cannoedd o bobl ifanc o bob cwr o Gymru ar fin elwa o gynllun grantiau newydd ac unigryw gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm.

Nod Traws Cymru - Across Wales, sef cynllun grantiau cyntaf yr Ymddiriedolaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar, yw meithrin rhagor o ddealltwriaeth a chyfeillgarwch ymhlith pobl ifanc Cymru drwy gefnogi projectau sy'n dod â'r rhai 11-25 oed ynghyd drwy gyfrwng cyfnewidiadau mewn chwaraeon a diwylliant.

"Mae Traws Cymru yn unigryw am mai hwn yw'r unig gynllun o'i fath i ddarparu rhaglenni cyfnewid yng Nghymru i bobl ifanc o Gymru. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at werthfawrogi mwy ar nodweddion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol - a chwaraeon - cymunedau ein cenedl amrywiol," meddai Tom Jones OBE, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth.

"Bydd croeso i geisiadau gan grwpiau gwirfoddol sydd â chyfansoddiadau, gan fudiadau ieuenctid a chan glybiau ysgol ledled Cymru. Bydd y projectau'n cynnwys ymweliadau ar sail croesawu a chyfnewid, a chaiff grwpiau sy'n gweithio gyda phobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl neu rai o gymunedau difreintiedig eu hannog yn arbennig i gyflwyno ceisiadau," ychwanegodd Mr Jones.

Fe weinyddir y cynllun grantiau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef y corff sy'n dosbarthu cyllid i grwpiau gwirfoddol yng Nghymru. Mae cronfa o £150,000 wedi'i neilltuo i'w dosbarthu yn ystod cyfnod peilot y cynllun dros y 18 mis nesaf. Uchafswm y grant sydd ar gael i bob project unigol yw £2,500.

Mae Traws Cymru yn dilyn yr egwyddorion a bennwyd gan Asiantaeth Ieuenctid Cymru, sef rhoi i bobl ifanc gyfleoedd addysgol a chyfleoedd i gyfranogi ac i'w grymuso a'u mynegi eu hunain. Bydd y cynllun ar waith tan fis Ionawr 2003 ac nid oes ond un grant ar gael ar gyfer pob project unigol.

Mae'r elusen, sy'n cael ei hincwm drwy ardoll o 25c ar bob tocyn a werthir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn y stadiwm, wedi'i sefydlu i gynorthwyo projectau i bobl ifanc ledled Cymru.

Gellir cael pecynnau ymgeisio Traws Cymru oddi wrth Andrew Owen yn y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol ar 029 2043 1762 neu drwy anfon e-bost ato yn: aowen@wcva.org.uk

# Glantaf

## Rafflo'r raffl



Luke Pearce yn cyflwyno'r beic i Mr Meurig Jones gyda Mrs Gaynor Jones, Pennaeth Bl. 11

Roeddwn i'n eistedd yn ffreutur yr ysgol. Yn y cefndir roedd y menywod cinio yn tynnu raffl rhyw gwmni diodydd ag iddo arlwy o wobrau. Ond wrth gwrs, dyw dyn byth yn ennill raffl. A dweud y gwir, bu bron i fi anghofio rhoi fy unig gais mewn. Yn ôl y sôn roedd disgyblion wedi bod yn prynu degau o ddiodydd pop y cwmni ers wythnosau er mwyn rhoi cymaint o geisiadau ag oedd yn bosib i mewn.

Daeth y gwobrau mâs fesul un-offer amddiffyn sglefrolio, hi-ffi, ac yn y blaen. Dyma fi ar fin codi i adael y ffreutur, wrth i'r tocyn olaf gael ei dynnu ar gyfer y wobr fawr-beic mynydd newydd sbon. Dyma alw fy enw i. Fy enw i? Dwi byth yn ennill rafflau! Teimlais ychydig bach yn euog, dim ond un tocyn roeddwn wedi ei brynu wedi'r cwbl, a sawl un yn haeddu beic yn fwy na fi. Roeddwn rhwng dau feddwl beth i'w wneud. Roedd gen i feic gartref a hwnnw'n cael fawr o ddefnydd fel roedd hi.

Dyma fy ffrind, Tomos, yn cael syniad. Beth am rafflo'r beic eto a rhannu'r arian rhwng ein taith rygbi i Awstralia yr haf nesaf ag elusen yr ysgol, apel Arch Noa? Penderfynwyd gwneud hynny a dechreuwyd gwerthu tocynnau raffl i ddisgyblion yr ysgol.

Gwerthwyd dros 250 o docynnau a chasglwyd £123.03 ac un ffranc Ffrengig! Cyflwynais y siec am £66.53 i elusen Arch Noah a £66.50 i mewn i'r cyfrif banc, a fydd yn cael ei ddefnyddio adeg y Pasg ar gyfer talu am fy nhaith i Awstralia. Pwy enillodd y beic yn y diwedd? Wel,un o'r athrawon drama, Mr Jones! Mae'n siwr iddo gael Nadolig Llawen iawn!

**Luke Pearce (Bl.11)**

## Caerdydd i Gaeredin

Ar ôl hedfan o faes awyr Bryste a chyrraedd Caeredin tua 10 o'r gloch, yn syth i'r Hostel Ieuenctid aethom ni, 10 o ddisgyblion Glantaf a 3 athro. Taith Gwleidyddiaeth i weld Senedd yr Alban ydoedd er bod digon o amser i ni brofi siopau Caeredin hefyd!


Ar ddydd Mercher aethom i eistedd mewn siambr ddadlau a dysgu am wasanaeth iechyd yr Alban. Buom yn ymweld hefyd â chanolfan ymwelwyr y Senedd. Rhaid dweud bod hwn yn brofiad da i ni wedi i ni hefyd ymweld â'r Cynulliad. Ar ôl diwrnod caled o waith a siopa aethom i'r Hard Rock Cafe i ymlacio.

Un o uchafbwyntiau answyddogol y daith oedd cwrdd â'r ser o fyd teledu, Johnny Vaughan a Paul Ross!

**Sian ElenWilliams (Bl. 12)**



Y disgyblion a'r athrawon gyda Johnny Vaughan a Paul Ross



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Alys Bryant a Fiona Peet ar ennill lle yng ngholegau St Catherine a Newnham, Caergrawnt, ac i Elin Burns, Jenny Heap a Manon Hefin ar ennill lle yng ngholegau Iesu, Mansfield aTrinity, Rhydychen.

# Plasmawr

## Taith i Skegness

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae 'Rightfit' wedi bod yn rhoi grantiau i'r ysgol, i brynu nwyddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, cadw'n heini a bod yn iach. O ganlyniad i'r arian yma, mae'r ysgol wedi cael wal ddringo, offer campfa a bar bwydydd iachus sy'n gwerthu pethau fel salad, brechdanau a diodydd sy'n cynnwys fitaminau yn hytrach na diodydd *fizzy*.

Mae'r ysgol wedi darganfod ei fod yn ddechreuad positif i iechyd a ffitrwydd o fewn ysgol ac y bydd hefyd yn annog mwy o blant i droi at ffordd iachach o fyw. Gan fod yr ysgol yn rhan o gynllun 'Rightfit', gwahoddwyd dau o ddisgyblion yr ysgol ac athro i fynychu taith i Skegness ym mis Tachwedd. Arhoson ni yn Butlins am noson a deuddydd. Roedd nifer o wahanol grwpiau yno; ysgolion a chlybiau allanol sy'n defnyddio'r cynllun. Yno, roedd arddangosfeydd yn ymwneud ag iechyd a ffitrwydd, er enghraifft Dawns, Yoga a Chymorth Cyntaf.

Yn ystod yr ail ddiwrnod roedd yn rhaid i bob grŵp greu arddangosfa a oedd yn dangos sut y gwariwyd yr arian yn yr ysgolion. Ar ddiwedd y daith daeth 'Bubble' o'r rhaglen deledu enwog 'Big Brother' i gyflwyno'r tystysgrifau i bob grŵp am lwyddo yn y cynllun i wella iechyd, ffitrwydd ac i anelu at fywyd mwy egnïol.

**Amy Williams (Blwyddyn 10)**

# YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu camp yn casglu £1,744 ar gyfer Sefydliad y Galon yn yr ymgyrch 'Walkathon'. Enillwyd gwobr arbennig gan yr ysgol gan mai nhw gododd y swm fwyaf o arian.



"Roedd pawb yn frwdfrydig dros y daith. Roedd ymdrechion y plant yn arbennig , yn enwedig gan ein bod yn ysgol gymharol fach." meddai Rhian Griffiths, Dirprwy Bennaeth yr ysgol.

# TUDALEN YR URDD

## TAITH UWCHRADD YR URDD

Yn ystod y tymor diwethaf mae Taith Uwchradd yr Urdd wedi bod ar daith o gwmpas Cymru gan ymweld â sawl ysgol yn Nghaerdydd a'r Fro.

Yn ystod ein hymweliadau ar ysgolion roedd y disgyblion yn cael cyfle i fynd ar y wal ddringo ac hefyd gwylio sioe gan yr actorion Ioan Evans, Catrin Evans a Rhian Jones.



Dyma lun rhai o ddisgyblion Glantaf yn mwynhau eu hunain ar y wal.

### *DYDDIADAU EISTEDDFODAU CAERDYDD A'R FRO 2002*

Cylch: Cynradd Dwyrain Caerdydd
Dydd Iau, 14 Mawrth 3.45pm yn Ysgol Bro Eirwg
Cylch: Cynradd Gorllewin Caerdydd
Dydd Sadwrn, 16 Mawrth 9.00am yn Ysgol Uwchradd Plasmawr
Cylch: Cynradd Y Fro - Dydd Gwener, 15 Mawrth 9.30am yn Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg
Sir: Dawnsio Disgo, Creadigol a Gymnasteg Cynradd ac Uwchradd Dydd Gwener, 8 Mawrth, Gerddi Sophia, Caerdydd. 2.00pm
Sir: Cynradd Caerdydd a'r Fro - Dydd Sadwrn, 23 Mawrth Neuadd Coleg Colchester Ave (UWIC), Caerdydd. 9.00am
Sir: Uwchradd Caerdydd a'r Fro - Dydd Sadwrn, 16 Mawrth Neuadd Coleg Colchester Ave, (UWIC), Caerdydd. 9.00am

## Gweithgareddau

**Hanner Tymor Chwefror**

Trip i Aqua Dome, Dydd Gwener 22 Chwefror £13.50 (yn cynnwys nofio, bwyd a ffilm) Disgyblion Bl. 5 a 6

**Ysgol Bêl-droed**, Dydd Llun, 18 Chwefror £4.50
10 - 12 am Disgyblion Bl. 1 a 2 Astroturf Gerddi Sophia
1 - 4 pm Disgyblion Bl. 3, 4, 5 a 6



### Llongyfarchiadau

- i Ysgol Sain Ffagan ar ennill Cystadleuaeth Pêl-droed 7 bob Ochr yr Urdd Caerdydd a'r Fro.
- Ysgol Marlborough ar ennill Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd Caerdydd a'r Fro
- Ysgol St Joseffs ar ennill Tarian Nofio yr Urdd Caerdydd a'r Fro
- i bawb aeth drwyddo i cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Gala's Nofio Cenedlaethol Cynradd ac Uwchradd yr Urdd yn ddiweddar

## TAITH GYNRADD YR URDD

Hefyd yn ystod y tymor diwethaf gwnaeth y Daith Gynradd sioe led led Cymru gan ymweld a thros 50,000 o blant. Sioe a Jambori oedd hi, yn sôn am holl weithgareddau'r Urdd ac hefyd i ail lansio Mistar Urdd. Gwnaeth y sioe ymweld a thros 30 o ysgolion y Sir. Dyma lun o'r actorion Ceri Tudno, Gareth Roberts a Iestyn Llwyd gyda'r plant ac wrth gwrs Mistar Urdd.

# 'Operation Friendship' yn croesawu'r Fari i Dŷ Mawr

Ar 12 Ionawr cynhaliwyd noson i ddathlu'r Hen Galan yn Nhŷ Mawr,Yr Eglwys Newydd trwy garedigrwydd Eleri a Brian Rogers. Cafwyd noson gymdeithasol arbennig yn llawn o eitemau amrywiol. Cawsom fel cynulleidfa fwynhad o wrando ar gân neu ddwy gan Delwyn Siôn; stori'au byrion gan Mallt Anderson, a chanu plygain gan grŵp o'r Eglwys Newydd, heb anghofio seren y noson – Y Fari Lwyd. Roedd yn noson fendigedig ac roedd y croeso a'r cwmni yn wresog. Fe aeth elw'r noson tuag at 'Gyfeillion Operation Friendship' Caerdydd sy'n trefnu ymweliadau cyfnewid gyda'r Unol Daleithiau ar gyfer pobl ifanc. Hoffwn ar ran 'Operation Friendship' ddiolch o galon i Eleri a Brian am agor drysau Tŷ Mawr ar y noson arbennig hon.

Os oes unrhyw berson ifanc rhwng 15 a 18 oed yn hoff o deithio a chyfarfod wynebau newydd, yna 'Operation Friendship' yw'r peth i chi. Mae'n darparu cyfle i bobl ifanc i deithio'r byd ac i ehangu gorwelion, yn ogystal ag ehangu gorwelion pobl ifanc yr ochr arall y dŵr. Mae'n gyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd yn ogystal â chael amser bythgofiadwy. Gallaf ddweud o brofiad ei fod yn gyfle rhy dda i'w golli.

Os oes gan unrhyw un diddordeb i ymuno â'r gangen, cysylltwch â Garwyn Davies (2070 8253), Ros Williams (2075 1091), neu Nans Couch (2075 3625).

**Siân Couch**

# COFIO CHRIS REES

## Athro, gwleidydd a phensaer yr Wlpan



*Ddydd Sadwrn, 8 Rhagfyr 2001 bu farw Chris Rees, athro, gwleidydd a phensaer yr Wlpan. Mae'r Dinesydd yn falch o gyhoeddi'r teyrngedau hyn i Chris gan ddwy a fu'n gydweithwyr iddo.*

Braint yw cael cyfle i ddweud gair ar ran y miloedd sy'n ddyledus i Chris. Ac nid gormodiaith yw dweud miloedd yn y cyd-destun hwn gan fod ei ddylanwad wedi bod yn bellgyrhaeddol - naill ai'n dysgu pobl yn uniongyrchol, yn rhoi cyfle i bobl ddysgu trwy sefydlu unedau Cymraeg i oedolion ledled Cymru, neu trwy roi cyfle i Gymry ifainc ddod yn diwtoriaid Cymraeg a datblygu gyrfa yn y maes pwysig hwn. Fe drawsnewidiodd y maes a oedd mor agos at ei galon.

I'r sawl sy'n gyfarwydd â chwrs Wlpan Chris, fe wyddoch iddo anfarwoli Ficer Port Talbot yn ei frawddegau enwog. Ond i ni, nid Ficer Port Talbot oedd Chris, ond Tad yr Wlpan.

Dyn y gwneud oedd e - doedd ganddo fawr o amser nac amynedd ar gyfer pwyllgora'n ddiddiwedd. Yr oedd yn gas ganddo falu awyr. Ond buodd yn dod i bwyllgorau a chofiaf ei fod yn amlach na pheidio yn cyrraedd ychydig yn hwyr. Nid am ei fod wedi rhedeg allan o betrol ar y ffordd na wedi methu â chodi mewn pryd, ond am ei fod wedi bod yn dysgu ei ddosbarth cyn mynychu'r cyfarfod. Y myfyrwyr oedd ei flaenoriaeth - y dysgu oedd bwysicaf. Tâl i ni i gyd gofio hynny. Ac fe barhaodd i ddysgu tan fis Mehefin 2001. Fe barhaodd i ddysgu am fod ganddo genhadaeth i adfer y Gymraeg yng Nghymru. Ond hefyd yr oedd ganddo ddiddordeb ysol yn y broses ddysgu. Cofiaf pan oeddwn yn diwtor yn Abertawe a Chris yn bennaeth arnaf, byddai'n dod i'm cloriannu (gair yr oedd yn ei gasau gyda llaw) unwaith neu ddwy y flwyddyn. Ni chofiaf fy ngwaith yn treulio llawer o amser yn y glorian. Yr hyn a oedd yn mynd â bryd Chris oedd, a oedd unrhyw weithgareddau wedi gweithio'n dda yn y dosbarth yn ddiweddar. A phetai syniad neu ddau gennyf i'w gynnig, byddai'n cofnodi pob un gair nes ei fod yn sicr ei fod yn deall yn llawn - arwydd o'i drylwyredd. Doedd dim hanner ffordd i Chris - rhoddai o'i orau i bob achos yr ymwnâi ag ef a hynny mewn ffordd ddi-ffws, ddiffwdan a chwbl ddiymhongar.

Y mae'n bwysig bod pawb yng Nghymru yn sylweddoli maint ei fawredd a'i gyfraniad. Gweithiodd yn ddiflino dros Gymru a'r Gymraeg. Pan feddyliaf amdano, un o'r geiriau a ddaw i'm meddwl yw gofal - dangosai ofal dros ei waith a'i wlad a'i iaith. Ac wrth i mi ddod i'w adnabod ar lefel fwy personol dros y ddwy flynedd diwethaf, gwelais yr un gofal dros ei deulu. A diolch i Nan a'r plant am ei rannu gyda ni. Ni all neb wneud cyfraniad mor sylweddol a phwysig ag y gwnaeth Chris heb gefnogaeth a chymorth teulu.

Yn Eisteddfod Llanelli dyfarnwyd Gwobr Goffa Elvet a Mair Elvet Thomas am wasanaeth arbennig i faes Cymraeg i Oedolion am y tro cyntaf. Chris oedd yr enillydd. Gwobrwywyd ef gan ei gydweithwyr ac yr oedd hynny wrth fodd ei galon.

Pan ymddeolodd Chris o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, a finnau'n mynd yno fel Cyfarwyddydd Dysgu, cofiaf ei eiriau wrthyf: "Os byddwch chi hanner mor hapus ag yr oeddwn innau, yna byddwch chi'n hapus iawn." Os galla i a phawb arall sy'n ymwneud â Chymraeg i Oedolion gyfrannu chwarter yr hyn a gyfrannodd yntau, yna bydd lle gyda ni i fod yn hapus. Diolchwn am y cyfle i fod wedi'i adnabod am am ei gymwynasau lu. Mae Cymru, y Gymraeg, ac yn sicr maes Cymraeg i Oedolion yn dlotach hebddo.

**Helen Prosser**

Traddodwyd y deyrnged hon yn angladd Chris Rees

## WLPAN, ei rodd i Gymru

Daeth y newyddion am farwolaeth Chris â thon o dristwch dros lawer ohonom – a llu o atgofion.

Mae llawer ohonom yn ei gofio yn siaradwr tanbaid yn ysgolion Haf y Blaid ac yn un o arweinyddion 'Senedd i Gymru' yn ôl yn y 50au.

O bell oeddwn i yn ei adnabod nes i fi gael fy ngwahodd fel tiwtor ail iaith ar Gwrs Dosbarthiadau Bl 6. Chris oedd yn arwain y cwrs ar ran y Cydbwyllgor. Roedd Chris wedi bod yn astudio'n fanwl oblygiadau'r Sensws i'r iaith Gymraeg. Gweld oedd e y byddai'r niferoedd fyddai'n siarad Cymraeg yn disgyn yn sylweddol mewn ugain mlynedd wrth i'r rhai a anwyd ddechrau'r 40au gyrraedd eu trigain oed heb ddysgu'r iaith i do newydd o oedolion. Roedd am dargedu myfyrwyr yr hen Lefel 'O', a TGAU, rhai dim ond angen procio'r cof a magu hyder cyn iddyn nhw fod yn siaradwyr go iawn. Roedd e hefyd am dargedu to newydd o oedolion i'r Gymraeg. Roedd wedi cael llond bol ar glywed pobl yn dweud, *'I've tried and tried but I was never any good.'*

Chlywais i ddim byd mwy nes i Nia fy chwaer ddod nôl o gyfarfod UCAC wedi clywed gwraig o Israel yn sôn am ULPANIM yno. Chris Rees drefnodd iddi ddod â'i stori ryfeddol. Yr iaith Hebraeg yn iaith farw, bellach yn cael ei siarad gan bawb, o ba wlad bynnag y deuant trwy ddysgu dwys yn y Kibbutz. Gwnaed cymariaethau a'r sefyllfa yng Nghymru ac roedd Chris yn argyhoeddedig y dylem ni ddechrau arni yn syth. Cafodd gefnogaeth Gwilym Roberts a Chanolfan yr Urdd i gynnal dau gynllun peilot fu'n llwyddiannus dros ben. Roedd pedwar athro gwahanol yn dysgu bob nos, bum noson yr wythnos – rhai ohonom yn dysgu mewn tîm am y tro cyntaf erioed, a'r canlyniadau'n ysgubol. Roedd oriau hyblyg amser y gwersi wedi bod yn ffactor arbennig yn eu llwyddiant - peth cyntaf yn y bore, cyn oriau gwaith, yn y prynhawn pan fo'r plant yn yr ysgol, amser te, yn syth ar ôl gwaith a chyda'r nos pan fo pobl yn rhydd.

Mae yr Wlpan bellach yn hysbys i filoedd a sefydlwyd cyrsiau cyffelyb ledled Cymru.

Gweledigaeth Chris Rees a'i ddycnwch di droi'n ôl a'i ysbrydoliaeth fu'n gyfrwng i sicrhau'r Wlpan inni – Dyna'i rodd i Gymru.

**Ethni Jones**

# CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD YN 50

## *Edrych yn ôl ac Edrych ymlaen yng Nghyfarfod Blynyddol y Cylch*

**Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies yn Galw am Gomisiwn Annibynnol i Sefyllfa'r Iaith yn y Cymunedau Cymraeg**

Eleni, bu Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn dathlu ei hanner canfed pen-blwydd. Yn rhinwedd y ffaith honno, bu'r troeon yn hanes yr iaith Gymraeg yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf yn thema yng nghyfarfodydd y flwyddyn. Ac yng nghyfarfod blynyddol y cylch fis Tachwedd, yr oedd hi felly yn gwbl briodol mai yr Arglwydd Gwilym Prys Davies oedd y siaradwr gwadd. Yma, rhown grynodeb o'r araith gadarn a phwysig a draddododd, ac yntau yn edrych yn ôl dros hanner canrif a fu "yn drobwynt" yn hanes ein cenedl.

Wrth longyfarch y Cylch Cinio am ymgynnal o ddegawd i ddegawd, fe soniodd yr Arglwydd Gwilym am ei ymweliad "â'r bwrdd cinio hwn unwaith o'r blaen ..." ac "wrth gofio heddiw am y cinio hwnnw dros ddeugain mlynedd yn ôl", meddai, "cofiais yn sydyn a diesboniad, i mi sôn ei bod hi'n oes y byrddau - y byrddau enwebedig - dur, glo, nwy, trydan a rheilffyrdd a'r Bwrdd Iechyd ... sydd wedi darfod amdanynt erbyn heddiw."

**Ddoe a Heddiw**

Ac wrth edrych yn ôl dros yr hanner canrif, "gwelwn y gwrthgyferbyniad rhwng heddiw a ddoe", meddai, a chyfeiriodd at chwe charreg filltir:

1. Yn 1955, estyn yn swyddogol i ddinas Caerdydd fraint a statws prifddinas Cymru. Ar un olwg, cam bychan. Eto, pwy all fesur y bendithion a ddaeth yn sgîl y statws newydd?
2. Yn 1964, trwy offeryn statudol, trosglwyddo dyletswyddau gweithredol i Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru.
3. Yn 1967, trwy Ddeddf Iaith - deddf gyfyngedig iawn - estyn i'r iaith Gymraeg statws dilysrwydd cyfartal â'r Saesneg am y tro cyntaf er Deddf Uno 1536 a ddedfrydodd y Gymraeg yn swyddogol i farwolaeth.
4. Yn 1985, trwy Ddeddf Addysg, dyrchafu'r Gymraeg yn bwnc craidd yn y cwricwlwm addysg.
5. Yn 1993, trwy ail ddeddf iaith, sefydlu Bwrdd Iaith statudol sydd bellach yn gwario chwe miliwn o bunnoedd y flwyddyn ar hyrwyddo'r Gymraeg, ac sydd wedi cymeradwyo yn agos i ddau gant o gynlluniau iaith gan gyrff cyhoeddus.
6. Yn olaf, refferendwm 1997, pan roddwyd awdurdod i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Chwithig yw synhwyro rywsut mai trwy ddifaterwch y mwyafrif yn hytrach na'i brwdfrydedd y ganed ein Cynulliad Cenedlaethol - a thrwy ddadlau amdano yn Saesneg."

**Edrych ymlaen**

Ond beth pe baem yn edrych hanner can mlynedd ymlaen? Er na allwn weld unrhyw garreg filltir y tu hwnt i'r llen sydd rhyngom a'r dyfodol, ni olyga hynny ein bod yn llwyr ar drugaredd yr elfennau. "Mae gennym ewyllys a rheswm yn help i ni lunio'r dyfodol", meddai'r Arglwydd Gwilym, " ... ac ar sail Deddf Iaith 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 - dwy ddeddf nad ydynt heb eu gwendidau - mae gennym sail i fod yn obeithiol." "Serch hynny", meddai, "y mae'r dadfeiliad mawr sy'n digwydd yn y cymunedau Cymraeg yn y Gogledd a'r Gorllewin, a fu'n gymunedau Cymraeg er cyn cof, yn golygu eu bod yn wynebu argyfwng eu bodolaeth." Bu'r ardaloedd hyn, meddai, yn ddiwylliannol gyfoethog, ac yn gefn i'r bywyd Cymraeg drwy Gymru gyfan. Mater o bryder mawr yw "bod ffynhonnau'r Gymraeg yn ei broydd naturiol yn sychu. Y mae amrywiaeth yn cyfoethogi'r gymdeithas ddynol yn gyffredinol, ac felly y mae parhad y cymunedau hyn yn hollbwysig."

Er bod yr all-lifiad o bobl ifanc a'r mewnlifiad grymus o bobl ddi-Gymraeg yn creu problem enbyd o anodd, "gall ewyllys dyn a'i reswm", meddai, "chwarae rhan go bwysig i ffurfio ei gymdeithas a'i dyfodol, ac i dorri llwybr newydd." Dylem, felly, alw ar y Cynulliad "i sefydlu comisiwn annibynnol o bobl brofiadol i arolygu'r sefyllfa yn y cymunedau Cymraeg ac i ddwyn argymhellion gerbron."

**Pedair Tasg i Gomisiwn Annibynnol**

Awgrymodd yr Arglwydd Gwilym y dylai comisiwn annibynnol gyflawni pedair prif dasg:

a) Darganfod y ffeithiau am nerth y mewnlifiad dros y chwarter canrif diwethaf.

b) Darganfod beth sydd wedi digwydd, yn digwydd ac a fydd yn debygol o ddigwydd i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg os pery'r tueddiadau presennol ar y raddfa bresennol. Er enghraifft, clywn am y canlynol ond y mae angen casglu tystiolaeth amdanynt a thaflu goleuni arnynt:

i. Faint o blant ysgol yn siroedd y Gogledd a'r Gorllewin sy'n dod o gartrefi Cymraeg?
ii. Sut y mae hi ar y papurau bro?
iii. Faint o gapeli Cymraeg yng nghefn gwlad sy'n debygol o gau eu drysau yn y deng mlynedd nesaf?
iv. Sawl cymdeithas Gymraeg wirfoddol neu ddiwylliannol sy'n dod i ben?
v. Beth yw'r dystiolaeth am y prinder tai am bris rhesymol?
vi. A oes dirywiad ym maes gwirfoddoli ymysg siaradwyr Cymraeg yn y Fro Gymraeg?

c) Darganfod sut y mae seneddau tramor yn ceisio diogelu rhanbarthau gwledig a diwylliant lleiafrifol o fewn y gymdeithas.

ch) Cysylltu'r goleuni am y sefyllfa wrth fesurau neu ddulliau neu gyfundrefn newydd i amddiffyn y broydd Cymraeg mewn modd a fyddai'n unol â darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd.

**Pam Comisiwn Annibynnol?**

Ni fyddai'r cerrig milltir y cyfeiriodd atynt yn eu lle, meddai'r Arglwydd Gwilym, "oni bai am adroddiadau gwrthrychol a safonol gan bwyllgorau awdurdodol, a'r ymchwil a'r meddwl sydd yn sail iddynt" - megis:

1. Adroddiad pellgyrhaeddol yr Esgob Owen, Esgob Tyddewi, ar 'Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd' (1923-1927).
2. Adroddiad grymus Pwyllgor Syr Dafydd Hughes Parry ar 'Safle Gyfreithiol yr Iaith Gymraeg' (1963-65).
3. Adroddiad anferth Comisiwn Kilbrandon ar y Cyfansoddiad (1969-73).

Bu'r adroddiadau hyn yn help "i balmantu'r ffordd ymlaen ac i drawsnewid rhagolygon y Gymraeg a chyfansoddiad Cymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif", ac "y maent yn tystio ei bod ynom i fod yn rhesymol a gwâr."

**Illtud Lewis, Llywydd Cylch Cinio Caerdydd**

---

*Am fwy o fanylion am Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd cysylltwch â Tony Couch 029 20 75 36 25; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk*

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Beth gall rhywun ei wneud ar ddiwrnod o dywydd diflas ond eistedd o flaen y tân, y gath yn canu grwndi ar eich penliniau, a darllen? Digwyddodd rhywun adael llyfr diddorol iawn ar fy mwrdd coffi, o'r enw *Life on the Heath* gan Gareth Williams*. Mae'n sôn am hanes yr ardal o Gaerdydd a enwir yn Gymraeg "Y Mynydd Bychan" oedd yn dir comin o'r Canol Oesoedd hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl bod y Rhufeiniaid wedi codi ffordd trwy'r ardal (Heol Ryd-y-pennau a Heathway bellach). Yn y bumed ganrif, daeth Illtyd Sant i Fro Morgannwg. Illtyd oedd yr un a gododd fynachlog yn Llanilltyd Fawr, ond roedd disgybl iddo o enw Dionysius a ymgartrefodd ger Rhyd-y-Pennau. Roedd yr enw Dionysius yn dipyn o lond ceg, ac felly gelwid e Nysan neu Isan. Llanisien yw ei eglwys e. Pan ddaeth y Normaniaid ganrifoedd yn ddiweddarach, Denys roedden nhw'n ei alw, ac felly mae Ffynnon Llandenis yn y Mynydd Bychan wedi'i enwi ar ôl yr un sant! Digwyddodd llawer o bethau eraill yn y Mynydd Bychan, o frwydrau i rasio ceffylau, cyn i'r ardal gael ei "datblygu". Mae'r llyfr yn adrodd hanes datblygu trwy'r canrifoedd. Mae'n llawn storïau a lluniau diddorol. Dylai pawb sy'n byw yng Ngogledd Caerdydd ei ddarllen!

**Merton Priory Press, £12.95*

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| canu grwndi - *to purr* | ymgartrefu - *to make one's home* |
| a enwir - *called* | tipyn o lond ceg - *a bit of a mouthful* |
| tir comin - *common land* | gelwid e - *he was called* |
| Rhufeiniaid - *Romans* | ganrifoedd yn ddiweddarach - *centuries later* |
| mynachlog - *monastery* | brwydrau - *battles* |
| disgybl - *disciple, pupil* | datblygu - *to develop* |

### Ysbyty newydd yn agor

Clustnodwyd Gŵyl Ddewi eleni fel y dyddiad ar gyfer agor yr ysbyty newydd gyntaf yng Nghaerdydd ers deng mlynedd ar hugain ar safle yr hen Ysbyty Dewi Sant yn Nhreganna. Ar y diwrnod hwnnw bwriedir cau Ysbyty'r Hamadryad ym mae Caerdydd ac Ysbyty Lansdown yn Lecwydd a chludo'r cleifion oddi yno i'r ysbyty newydd. Fel rhan o'r hen ad-drefnu agorir ward newydd hefyd yn Asgell Orllewinol hen Ysbyty Frenhinol Caerdydd yn y Rhath. Bydd lle i gant o gleifion yn yr ysbyty newydd a gostiodd ugain miliwn i'w hadeiladu.

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon



Ym mis Chwefror bydd yr ardd yn dod 'nôl i fywyd ar ôl y gaeaf gyda'r lili wen fach, saffrwm ac os yw'r tywydd yn fwyn, gennin Pedr cynnar yn ymddangos. Ond mae llawer o drysorau eraill y gellid eu cael yr adeg yma. Un ohonynt yw teulu'r 'Hellebore' neu Crafanc yr Arth. Efallai mai'r mwyaf cyfarwydd ohonynt yw'r *Helleborus niger* neu'r rhosyn Nadolig i roi ei enw cyffredin iddo, er nad yw braidd byth yn ei flodau erbyn y Nadolig, nac yn edrych fel rhosyn! Mae ganddo flodau â phump petal (sepalau i fod yn fanwl gywir) gwyn yn wynebu tua'r ddaear ymhlith dail gwyrdd tywyll sgleiniog sy'n para trwy'r flwyddyn.

Math arall yw *H. argatifolius* sydd yn fwy coesog, yn tyfu'n dalach a chanddo flodau gwyrdd sy'n para am gyfnod hir. Yna mae'r rhosyn Grawys, *H. orientalis*. Mae llawer o groeni ar y math yma wedi bod gan y bridwyr ac mae amrywiaeth o liwiau ar gael erbyn hyn o wyn, hufen a gwyrdd trwodd i binc a phorffor tywyll, rhai'n lliwiau plaen ac eraill yn frith neu smotiog. Mae'r bridwyr hefyd yn ceisio gwneud y blodyn yn llai swil trwy chwilio am rai sy'n wynebu i fyny, fel nad oes raid i chi fynd ar eich gliniau i werthfawrogi eu gogoniant.

Mae'r teulu i gyd yn hawdd eu tyfu. Maent i gyd â dail bythwyrdd a blodau sy'n para am wythnosau. Maent ar eu gorau mewn man cysgodol - efallai o dan goed sy'n colli eu dail, lle cânt ychydig o haul gaeafol drwy'r brigau. Tyfwch nhw gyda phlanhigion eraill sy'n hoffi'r un sefyllfa, fel bylbau bychan, y lili wen fach, *fritillaria* a *pulmonaria*, sy'n drysor gaeafol arall.

Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl: 8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn
BT
**Ffoniwch heddiw**
i gofrestru am fil ffôn Cymraeg (bil ffôn cyffredin) ynghyd â chatalog gwybodaeth yn y Gymraeg
BT bob tro 0800 800 288
Defnyddiwch eich Cymraeg

**TELYN AR WERTH**
*Ffoniwch*
**029 20 211855**

**~ AR WERTH ~**
Telyn Pilgrim Clarsach
mewn cyflwr ardderchog
Ffoniwch
**029 20 311340**

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?

Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri, diweddaru systemau ac unedau rheoli, tystysgrifau diogelwch

## *Hoffech chi wersi telyn gan delynores broffesiynol?*

O blant i oedolion - Pob safon

**CERI WYNNE JONES**

BA, Dip Adv. RAM, LTCL, LRAM

*Am fwy o fanylion ffoniwch*

**029 20 710039 / 07775 562119**

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

***Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â***

## Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**

**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

E-bost: aegis-ifa@supanet.com

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

**www.s4c.co.uk**







Celwydd, Cyfrinachau, Caru ar y slei.
Mae pawb wrthi yn Tipyn o Stâd.

**TIPYN O STÂD**

**Cyfres ddrama newydd yn cychwyn ym mis Mawrth**

TRANSL888/889

CYFRES**NEWYDD**

S4C